

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

DIOGELWCH CYMUNEDOL YNG NGHYMRU

**Arolwg Cychwynnol
Rhwydwaith Cymunedau
Mwy Diogel Cymru**

Hydref 2021

CYNNWYS

Rhagarweiniad	02
Canfyddiadau	02
Canfyddiadau Cyffredinol	03
Methodoleg	03
Sgiliau ac Arbenigedd	06
Data a Thystiolaeth	06
Cynnyrch	08
Rhannu Data	08
Cyllid	10
Safbwyntiau Unigolion a Chymunedau	11
Cyfleoedd, Rhwystrau a Heriau	11
Ffocws i'r Dyfodol	12
Crynodeb	13
Argymhellion	14

RHAGARWEINIAD

Ffurfiwyd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ym mis Ionawr 2021. Yn ystod y trafodaethau cynnar nodwyd y byddai angen gwneud arolwg cychwynnol. Mae'r arolwg cychwynnol hwn yn dilyn gwaith ar y gweithlu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd yr arolwg ei hun yn cynnwys cwestiynau penodol ar gyfer Rhwydwaith

Dadansoddi Data, Arloesi a Gwella Cymru, yn ogystal ag edrych ar gefndir y bartneriaeth a'r cymhlethdodau yn sgil cyrff cyhoeddus datganoledig a heb eu datganoli yn rhan o'r cyddestun diogelwch cymunedol.



METHODOLEG

Crëwyd arolwg ac fe aeth yn fyw drwy gydol mis Awst tan 10 Medi 2021.

Cylchredwyd yr arolwg i gadeiryddion Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, sef eu gohebiaeth gyntaf gan y Rhwydwaith.

Ar ôl i'r arolwg gau gwelwyd fod bwloch yn yr ymatebion gan yr heddlu. I sicrhau ein bod ni'n clywed eu lleisiau,

gwahoddwyd 3 heddlu i gymryd rhan mewn sgysiau byr gyda'r Rheolwr Datblygu Busnes a Rhwydwaith, sy'n ymgymryd â rôl Pennaeth y Rhwydwaith. Cymerodd 5 unigolyn ran yn y sgysiau; pedwar mewn parau ac un ar ei ben ei hun. Mae canfyddiadau'r sgysiau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn ac wedi'u nodi'n glir pan fo'n briodol.

CANFYDDIADAU

YMATEBWYR

Daeth 19 o ymatebion i law, 17 ohonynt yn mynd i gyfarfodydd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn rheolaidd a 2 yn mynd yn achlysurol. Cafwyd 12 ymateb gan awdurdodau lleol, 2 gan y Gwasanaethau Tân a bu i'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid, Cynghorau Gwirfoddol Sirol y Trydydd Sector, Bwrdd Iechyd, Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a'r Heddlu oll ddarparu un ymateb yr un.

Roedd yr 19 a ymatebodd yn mynd i 14 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, gyda phob ymatebydd yn mynd i bron i 1.5 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Derbyniwyd ymatebion (a chynhaliwyd sgysiau) gan bob un o'r 4 ardal heddlu, y 7 ardal Diogelu Rhanbarthol ac 17 ardal awdurdod lleol.

Roedd nifer yr ymatebwyr yn isel a heb ymchwilio ymhellach i hyn ni allwn ddweud yn union pam. Byddwn yn adolygu'r broses i weld sut gallwn gynyddu'r cyfraddau ymateb i'r dyfodol.



GWAITH PARTNERIAETH

Mae'r llwyddiannau mewn perthynas â chymunedau mwy diogel wedi'u priodoli'n bennaf i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol (73.7%), gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol (73.7%), gweithio mewn partneriaeth â Chydlyniant Cymunedol (73.7%), ac yna i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol (68.4%) a gweithio mewn partneriaeth â'r Heddlu a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (68.4%). Fodd bynnag, amlygwyd gwendidau o ran gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector preifat; gydag Addysg Uwch / Bellach a gyda Chynghorau Cymuned a Thref (26.3%).

Y sefydliadau gyda'r gyfradd ymateb isaf lle na chafwyd ymateb neu lle cafwyd ymateb 'amherthnasol' oedd yr Heddlu a'r Bwrdd Partneriaeth (47.4%), Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru (42.1%) a Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol (42.1%). Mae hyn yn awgrymu bod ar Fwrdd a Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru angen canolbwyntio gyda'i gilydd ar y ddau grŵp cenedlaethol i helpu i wella'r dulliau cysylltu a chyfathrebu.

Bu i bron i ddau draean o'r ymatebwyr nodi partneriaeth strategol ac arweinyddiaeth gyffredinol fel materion pwysig i ddarpariaeth dda, gyda bron i 70% yn nodi pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ar lefel weithredol.

Nodwyd y canlynol fel y materion diogelwch cymunedol pwysicaf y llynedd:

- 1 Mwy o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth (84.2%)
- 2 Mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal (73.7%)
- 3 Gweithdrefnau Diogelu Cymru (63.2%)
- 4 Meysydd gwaith newydd (e.e. Rheoliadau COVID-19) (63.2%)



Y meysydd gwanaf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd:

- Defnyddio mwy o ddata a thystiolaeth i gynllunio a chefnogi gwaith diogelwch cymunedol; a
- Datblygu asesiadau strategol mewn partneriaeth

Yn ôl yr arolwg caiff materion diogelwch cymunedol eu nodi a'u blaenoriaethu fel a ganlyn:

Cyd 1. Ar lefel genedlaethol – polisi a deddfwriaeth newydd

Cyd 1. Ar lefel strategol leol

Cyd 1. Ar lefel weithredol leol

4. Ar lefel genedlaethol – Byrddau Cenedlaethol, Contest Cymru

5. Drwy ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned

6. Drwy ddadansoddi data

Cafwyd yr ymateb isaf drwy'r asesiad strategol.

CANFYDDIADAU

Nodwyd cysylltiadau cyfyngedig gyda Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel gwendid. Roedd sylwadau ymatebwyr yn cynnwys: Cyngorwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn cyflwyno materion i'r Partneriaeth Diogelwch Cymunedol pan fo dulliau eraill wedi methu; effaith ffrydiau ariannol gyda'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn derbyn yr arian a oedd yn arfer mynd i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a hynny wedyn yn gallu arwain at weithio mewn 'swigen' a chystadlu rhwng ardaloedd awdurdod lleol; effaith pandemig Covid-19 wedi tynhau adnoddau ymhellach. Cafodd adnoddau prin hefyd ei godi yn ystod sgysiau gyda chydweithwyr yn yr Heddlu, gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn ffactor ac yn aml iawn yn ychwanegiad at rolau presennol.



Mae barn cyfranogwyr wedi'i chynnwys trwy gydol yr adroddiad

“Dw i'n gweld yr Heddlu yn aml iawn yn datrys problemau neu'n ymgymryd â gweithgarwch gweithredol ar eu pen eu hunain er mwyn mynd i'r afael â materion lleol sydd wedi'u nodi'n flaenoriaeth ganddynt. Dw i hefyd wedi gweld landlordiaid cymdeithasol yn gorfodi tenantiaethau ac yn rhoi ymyraethau ar waith heb roi sylw dyledus i gynlluniau ac adnoddau'r bartneriaeth diogelwch cymunedol ehangach. Ymddengys bod diffyg eglurder ynghylch y rhyngwyneb rhwng y byrddau strategol amrywiol a'r cynlluniau a diffyg gweledigaeth strategol gydlynol ar sut i ddarparu cynlluniau ategol.”



“Gall pob un ohonom ni weithio gyda'n gilydd yn well... mae cynnydd yn cael ei wneud ond gellir gwneud mwy.”

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Cafodd tri o'r pum dull gweithio eu defnyddio gan y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r gwaith: cydweithio; cyfranogi ac atal. Roedd 17 ymatebwr wedi gweld partneriaid yn gweithredu'n annibynnol i edrych ar faterion diogelwch cymunedol a fyddai wedi cael budd o ddulliau cydweithredol naill ai'n aml, yn achlysurol neu'n anaml. Roedd y partneriaid datganoledig yn teimlo eu bod yn canolbwyntio ar atal dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, tra'r oedd y rheiny heb eu datganoli yn canolbwyntio mwy ar drosedd ac ymddygiad gwael. Cefnogwyd hyn yn y sgysiau, gyda phedwar allan o bump naill ai ddim yn gwybod amdanynt neu'n ansicr ynghylch y nodau lles a'r dulliau gweithio ac felly ni chanolbwyntiwyd arnynt.



“Mae diffyg dealltwriaeth o hyd mewn perthynas â rhannu gwybodaeth. Mae'r adran diogelwch cymunedol yn aml yn derbyn y wybodaeth pa fo'r sefyllfa wedi gwaethygu.”

SGILIAU & ARBENIGEDD

Nodwyd sgiliau ac arbenigedd yn uchel neu'n ganolog ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar lefel strategol a phrosiectau dyddiol, ac ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. Roedd isaf ar gyfer cyfryngu ac ymarfer sy'n ystyried trawma.



“Fel Cydlynnydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol dw i'n gweithio ar fy mhen fy hun. Dw i'n ceisio datblygu fy sgiliau a'm harbenigedd drwy'r rhynggrwyd a gwefannau partneriaid ac ati. Dw i'n gwneud yn siŵr fy mod i'n rhannu unrhyw wybodaeth newydd gyda phartneriaid.”

Mae'r sylw hwn yn cefnogi canfyddiadau'r arolwg gweithlu a'r gweithdai a welodd fod meintiau timau diogelwch cymunedol awdurdodau lleol yn amrywio, gyda 3.4 aelod o staff llawn amser ar gyfartaledd. Ymhellach i hynny, mae sawl tîm diogelwch cymunedol naill ai'n gweithio ar eu pen eu hunain neu gydag agweddau diogelwch cymunedol gwahanol yn cael eu rheoli mewn gwahanol adrannau o'r awdurdod lleol, gan ychwanegu at gymhlethdodau i bartneriaid fel yr Heddlu. Amlygwyd sicrhau'r cysylltiadau cywir ar y lefelau cywir yn flaenoriaeth yn ystod y sgysiau.

DATA & THYSTIOLAETH

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod datblygu a darparu yn seiliedig ar dystiolaeth (84.2%) a'i fod wedi'i gynllunio a'i asesu gan gyfeirio at ddata meintiol (fel ystadegau trosedd, data iechyd) (78.9%). Roedd llawer o'r ymatebwyr yn credu bod yna gysylltiadau ag adnoddau eraill, fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn anghytuno o ran yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, Cynlluniau Lles a defnyddio ffynonellau data presennol.

Dywedodd

84.2%

fod datblygu a darparu yn seiliedig ar dystiolaeth


Dywedodd

78.9%

fod datblygu a darparu wedi'i gynllunio a'i asesu gan gyfeirio at ddata meintiol

“

“Mae ffynonellau data wedi sychu. Mae partneriaid rŵan yn cyhoeddi gwybodaeth ar-lein, ond mae'r rhan fwyaf naill ai'n generig, ar lefel asiantaeth neu Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is ac felly nid yw hynny o gymorth wrth geisio dadansoddi data sirol. Dw i'n cynhyrchu Asesiad Strategol blynyddol, ond ni cheir data o ansawdd. Roedd yr Heddlu yn arfer cynhyrchu data yn rheolaidd, ond nid yw bellach ar gael.”



Yn ogystal, nodwyd (36.8% - trydydd uchaf cyfartal) yn ddata economaidd-gymdeithasol pan ddarparwyd dewisiadau, ac adroddodd bobl ar gynnal grwpiau ffofws, trafodaethau achos a chasglu data un-i-un ansoddol i ychwanegu at y data sydd ar gael.

CYNNYRCH

Y cynnyrch sydd fwyaf tebygol o gael ei ddarparu i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yw dogfennau gweithredol, ac yna proffiliau cymunedol a rhanbarthol ac asesiadau strategol. Fodd bynnag, nodwyd yr uchod gan lai na hanner yr ymatebwyr.

Cafodd cynnyrch dadansoddi Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ei nodi fel mater, gydag ond ychydig neu ddim cynnyrch dadansoddi swyddogol ar gael. Fodd bynnag, mae o leiaf un ardal yn datblygu rhywbeth. Nodwyd fod y rhan fwyaf o'r data yn dod gan yr Heddlu a'i fod yn aml iawn wedi'i dadansoddi yn barod gan fod ganddynt fwy o adnoddau dadansoddi data (canfyddiad a gefnogir gan yr arolwg gweithlu a'r gweithdai).

Oherwydd y ffyrdd amrywiol y caiff diogelwch cymunedol ei reoli ar draws Cymru, ni chafwyd darlun clir o'r cynnyrch allweddol sydd ei angen. Er enghraifft, mae un ardal yn

canolbwyntio ar bedwar set data allweddol sy'n gysylltiedig â phedair blaenoriaeth gyttunedig tra bod ardal arall yn edrych ar bob elfen o ddiogelwch cymunedol. Defnyddir data i nodi blaenoriaethau, tueddiadau gwasanaeth ac i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol, yn cynnwys drwy brosiectau wedi'u comisiynu neu eu hariannu. Mae'r canfyddiad hwn yn mynd yn groes i'r canfyddiad cynharach nad yw asesiadau strategol yn cael eu defnyddio i nodi a blaenoriaethu materion diogelwch cymunedol, oni bai bod yr asesiadau strategol yn cael eu hysgrifennu a'u rhoi ar silff tra bod data a phrosesau eraill yn cael eu defnyddio i nodi blaenoriaethau.

RHANNU DATA

Roedd yna ofyn am fwy o ddata cyfoes yn fisol. Tra bod arferion rhannu data da ar waith mewn rhai ardaloedd, mae amllder hynny'n aml yn chwarterol neu ddim o gwbl. Ymddengys bod angen

safon ar draws Cymru, sy'n hygyrch ar lefel awdurdod lleol, er mwyn sicrhau cysondeb a darparu cyfle i ddatblygu asesiadau strategol ar draws Cymru sy'n gallu ymateb i ddatblygiadau a dyletswyddau newydd yn ogystal â materion a galw lleol.

Mae'r data yn cael ei rannu ar ffurfiau amrywiol, yn cynnwys Word, Excel a systemau'r Heddlu; fodd bynnag, y prif ddull yw Excel. Mae defnyddio dulliau diogelu data i atal rhannu data pan nad oes data personol yn cael ei rannu wedi'i godi yn ystod sgysiau ac wedi'i drafod gan WDAIIN. Mae gan bron bob un Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru wedi'i sefydlu rhwng partneriaid y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Ychydig iawn o adolygu cynnyrch neu archwilio data a wneir. Fe all hyn adlewyrchu'r materion presennol o ran rhannu data a diffyg cyfleoedd i gyflawni'r tasgau hyn. Cafwyd awgrym y dylid adolygu'r systemau a'r setiau data sydd ar gael er mwyn gwneud y tirlun data presennol yn glir ac i nodi unrhyw fwlch, ac er mwyn cael swyddogaeth gydlyn yn y Rhwydwaith i gefnogi hyn.

Ymddengys bod diffyg canolbwyntio ar reoli risg ar draws y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, gyda dibyniaeth ar MoRiLE yr Heddlu pan ddefnyddir y broses honno. Mae yna hefyd orddibyniaeth ar ddata'r Heddlu, sydd i'w weld yn fater gan yr Heddlu ac ymatebwyr eraill. Mae hyn yn awgrymu bod dibyniaeth ar ddata sy'n ymwneud â throeddau a materion sy'n ddigon difrifol i gael eu cofnodi ar systemau'r Heddlu, tra bod ar y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eisiau canolbwyntio ar atal cyn i broblemau waethygu, er mwyn cyrraedd nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n bosibl bod y ffaith bod y cyllid wedi symud o'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd wedi cynyddu'r dylanwad hwn, ond cafodd y mater ei godi gan bob partner yn cynnwys lle nad oedd newid mewn cyllid.

“

“Nid oes adnoddau ychwanegol ar gyfer y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Yn ddelfrydol byddai pob partner yn rhan o gynhyrchu asesiadau/adroddiadau diogelwch cymunedol ac ati.”


“

Nododd un ymatebwr nad yw “gwaith atal yn ffitio'n daclus yn ein system bresennol”.

CYLLID

Mae ffynonellau ariannu ar gyfer diogelwch cymunedol yn ymddangos i fod yn brin iawn i'r sector cyhoeddus. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae cyllid wedi'i dderbyn drwy:

(canran yr ymatebwyr a ymatebodd i'r pwyntiau)



Roedd bron bob ymatebwr yn cyfeirio at y cyllidebau is, ond hefyd at raglenni San Steffan fel Strydoedd Mwy Diogel. Mae'r rhain i'w gweld yn cymryd llawer o amser, ddim ar gael ymhob ardal, ac yn canolbwyntio ar droseddau yn hytrach nag atal ac achos troseddau. Mae'r cyllid gostyngol sydd ar gael yn cael ei weld yn arwain at ymateb mwy adweithiol i ddiogelwch cymunedol ac mae cyllid cyfyngedig ar gyfer atal. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r ymatebion a'r sgysiau bod yna ymrwymiad a rennir i atal a'r angen i flaenoriaethu hynny.

Roedd galw am eglurder a thryloywder ynghylch y broses a ddefnyddir gan Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd i flaenoriaethu cyllid, fel bod tegwch i bob ardal Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried cyfraddau dadansoddwyr data yn yr Heddlu, sydd wedi aros yn uchel, tra bod timau diogelwch cymunedol awdurdodau lleol wedi'u lleihau i 20% (Strategaeth Gweithlu 2021).

“

“Mae yna wario wedi bod – ond mae hyn wedi'i wneud gan asiantaethau/partneriaid unigol ac nid yw'n ymagwedd gydgyssylltiedig nac yn seiliedig ar dystiolaeth.”

“

“Gallem wneud llawer mwy o waith atal ac ymyrraeth gynnar petaem yn derbyn mwy o gyllid. Ar y funud rydym ni'n adweithiol ac yn ymladd tân gan nad oes gennym ni'r staff na'r arian i wneud mwy.”

SAFBWYNTIAU UNIGOL A CHYMUNEDOL

Roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ynghylch gwybodaeth Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ar lefelau unigol a chymunedol. Roedd hyn yn arbennig o wir o ran profiadau a dealltwriaeth o anghenion cymunedau diamddiffyn / mewn perygl. Fe all hyn fod yn ganlyniad i'r data sydd ar gael gan yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

CYFLEOEDD, RHWYSTRAU A HERIAU

Mae yna fanteision i orgyffwrdd cyfrifoldebau diogelwch cymunedol gyda:

Cyd 1. Gwarchod y Cyhoedd

Cyd 1. Byrddau Cynllunio Ardal ar Gamddefnyddio Sylweddau


Cyd 1. Byrddau Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Cyd 4. Cydlyniant Cymunedol

Cyd 4. Diogelu

6. Herio

Yr ardal fwyaf heriol yw'r honno rhwng diogelwch cymunedol a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.



“

“Mae datblygiad partneriaethau lluosog a ffrydiau ariannol penodol wedi arwain at chwalu gwir weithio mewn partneriaeth gyfannol ac at ddychwelyd i weithio mewn rhyw fath o swigen.”

“

“Mater sy'n codi dro ar ôl tro yw'r gwahaniaeth rhwng deddfwriaethau rhannu gwybodaeth. Mae cydweithwyr diogelu yn dibynnu ar dderbyn caniatâd. Mae iechyd yn ei chael hi'n anodd rhannu unrhyw wybodaeth bersonol. Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cael rhannu (polisi'r DU). Mae modd rhannu gwybodaeth dan y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn. Mae'r gwahaniaeth yma yn achosi problemau a chamddealltwriaeth. Mae heriau mewn perthynas â thrafod cyllid wrth wahaniaethu blaenoriaethau / materion i ganolbwyntio arnynt yn dod i'r amlwg mewn partneriaeth.”

Roedd hyder o ran gallu darparu diogelwch cymunedol, yn enwedig drwy:

- Dulliau sy'n seiliedig ar ganlyniadau
- Ymgysylltu â'r gymuned
- Gwerthuso a chynllunio gwelliant
- Cynllunio yn seiliedig ar dystiolaeth

Y meysydd gyda'r hyder isaf oedd:

- Cyllid digonol i gwrdd â'r heriau
- Mynediad at ddata a dadansoddi data
- Cynhyrchu data a thystiolaeth o effaith
- Dylanwadu ar y cynllun lles lleol

Roedd y cyfleoedd yn cynnwys:

- Dysgu o arferion gorau
- Cyfathrebu digidol fel offeryn ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned
- Dysgu o Adolygiadau Dynladdiadau Domestig / Adolygiadau Ymarfer Plant / Oedolion
- Arloesi
- Ymrymuso'r gymuned
- Dynamig cymunedol ar ôl Covid (cadarnhaol)

Heriau:

- Dynamig cymunedol ar ôl Covid (negyddol)
- Materion trawsbynciol fel tloedi, unigedd, lles
- Anghenion gwahanol mewn ardaloedd gwledig / trefi bach / ardaloedd trefol

FFOCWS I'R DYFODOL

Mae sawl adolygiad wedi'i gynnal o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ers 2016. Yn ôl un ymatebwr mae yna lawer o bethau'n digwydd ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw newid "ar lawr gwlad".

57.9%

o'r ymatebwyr yn credu bod Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn darparu cyfle, ac nid oedd neb yn ei ystyried yn her.

“

“Dw i'n llwyr gefnogi partneriaethau cymunedol fel ffordd ymlaen ar y cyd i wella cyfleoedd cymunedol a sgiliau ac i wella canlyniadau [...] mi fydd yna ryw faint o ddysgu yn sgil ein profiadau Covid a fydd yn ein helpu ni i ddatblygu dull mwy personol i ddarparu gwasanaeth yn hytrach na dull corfforaethol nad yw'n agored i drafodaeth yn aml iawn. Drwy wrando ar y gymuned gallwn asesu eu hanghenion a nodi risgiau, a chydweithio i fynd i'r afael â nhw.”

CRYNODEB

Drwy gydol yr adroddiad hwn mae yna sawl thema sy'n codi dro ar ôl tro:

- Yr angen i rannu data'n amlach.
- Nid yw data na'r asesiadau strategol yn cael eu defnyddio i nodi anghenion a blaenoriaethau lleol, yn hytrach maent yn cael eu gwneud yn unigol gan bartneriaid gyda'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn derbyn ond ychydig o'r data a all arwain at waith mwy effeithiol, effeithlon a, dan rai amgylchiadau, gwaith atal.
- Canolbwyntio ar faterion mewn ardaloedd daearyddol penodol yn hytrach na chymryd dull ataliol sy'n canolbwyntio ar atal y problemau rhag datblygu yn y lle cyntaf.
- Yr angen am ddealltwriaeth rhwng dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dull iechyd y cyhoedd – mae'r dull iechyd y cyhoedd yn cael ei weld fel bwlch, tra bod dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn aml yn sgorio'n fwy cadarnhaol.
- Nid yw pawb yn deall yr holl ddata e.e. bod data IOM yn cynnwys gwybodaeth y gwasanaeth prawf.
- Mae'n debyg bod angen safon ar draws Cymru, sy'n hygyrch ar lefel awdurdod lleol, er mwyn cael cysondeb wrth ddatblygu asesiadau strategol.
- Yr angen am lai o weithio mewn 'swigen' a mwy o gydweithio rhwng y trefniadau partneriaeth gwahanol, yn cynnwys dysgu gwersi rhwng ac ar draws partneriaethau.
- Yr heriau mewn perthynas â ffocws cyrff datganoledig a chyrrff heb eu datganoli
- Mae yna deimlad ar draws yr arolwg cychwynnol, sydd hefyd yn amlwg yn yr arolwg gweithlu, nad yw rhai darnau o waith yn cael eu gwneud mewn partneriaeth ond, yn hytrach, bod y rheiny sy'n gyfrifol amdanynt yn datblygu pethau a hynny wedyn yn arwain at weithio mewn 'swigen'.

ARGYMHELLION

1. Eglurder ynghylch y rhyngwyneb rhwng y byrddau strategol amrywiol, cynlluniau a gweledigaethau strategol cydlynol, er mwyn lleihau gweithio mewn 'swigen' a dyblygu a chanolbwyntio mwy ar weithgareddau atal.
2. WDAIIN i ganolbwyntio a mynd i'r afael â'r materion rhannu data.
3. Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ac Uned Atal Trais i gydweithio i ddarparu arweiniad cyson ar gyfer Asesiadau Strategol sy'n ymdrin â phob elfen o ddiogelwch cymunedol ac sy'n addas i'r dyfodol petai Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru yn cyflwyno newidiadau.
4. Bod Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn rhoi mwy o sylw i rannu dysgu ac arferion gorau ar draws partneriaethau a Chymru, yn cynnwys rhannu astudiaethau achos ac adroddiadau.
5. Bod Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn gweithio gyda WCCSJ i gynnal ymchwil ffurfiol i elfennau penodol o ddiogelwch cymunedol er mwyn creu trysorfa dystiolaeth, gan ganolbwyntio ar atal.
6. Codi proffil y Rhwydwaith ymhlith cadeiryddion Partneriaethau Diogelwch Cymunedol drwy lythyr ffurfiol gan gyd-gadeiryddion Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru neu sefydliadau'r cyd-gadeirydd a Phennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru.
7. Bod Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn hwyluso gweithdai a gweithgareddau eraill i helpu i nodi a goresgyn rhwystrau neu rwystrau ymddangosiadol rhwng partneriaid.
8. Comisiynwyr Heddlu a Throsedd i ystyried sut mae modd iddynt wella tryloywder y prosesau a ddefnyddir ganddynt i wneud penderfyniadau ynghylch cynigion ariannu, pa un ai i Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru neu'n fewnol.
9. Mwy o gysylltiad a chyfathrebu rhwng byrddau a fforymau cenedlaethol er mwyn ceisio gwella llif gwybodaeth.
10. Blaenoriaethu cyfryngu, arferion sy'n ystyried trawma a datrys problemau mewn partneriaeth yn rhaglen hyfforddiant Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru.
11. Bod un o'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn treialu cynhyrchu asesiad strategol ar y cyd, gyda nifer o bartneriaid, ac yn rhannu'r dysgu gyda'r sector ehangach (os oes angen, gyda chefnogaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru a'r Uned Atal Trais), gan adeiladu ar y gwaith yng ngogledd Cymru lle mae'r holl bartneriaid yn ariannu dadansoddwyr data partneriaeth yn Heddlu Gogledd Cymru.

HOFFAI RHWYDWAITH CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU DDIOLCH I'R
HOLL GYFRANOGWYR AM EU CYFRANIAD DRWY GYMRYD RHAN YN YR
AROLWG HWN.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â -
CymunedauMwyDiogel@wlga.gov.uk

Hawlfraint 2021 © Rhwydwaith
Cymunedau Mwy Diogel Cymru, CLILC



Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government